# AMY ROBERTS

14 Rhodfa Dewi, Bangor, Gwynedd, LL57 4PJ
Ffôn: 01248-123456 Symudol: 077631-123456 E-bost: aroberts@yahoo.com
www.linkedin.com/in/[esiampl]

**PROFFIL:**

Merch raddedig uchelgeisiol a dymunol gyda phrofiad mewn cyllid corfforaethol a phersonol sy'n chwilio am swydd gyntaf lle gall ddatblygu gyrfa mewn rheolaeth ariannol.

**ADDYSG:**

2015 - 2018 **Prifysgol Bangor**
Astudiaethau Busnes a Chyllid
Modiwlau dewisol a astudiwyd:
- Dadansoddi ariannol
- Cyllid corfforaethol uwch
- Strategaeth farchnata a rheoli
- Rheoli adnoddau dynol

**Project Blwyddyn Olaf**
'Rhagfynegi a dadansoddi ariannol marchnata nwyddau *American Bakery* yng Nghymru'

2008 - 2015 **Ysgol Tryfan, Bangor**
Lefel 'A' - Busnes A, Mathemateg B, Hanes B
TGAU – 10 pwnc A-C, yn cynnwys Mathemateg A, Ffrangeg A, Saesneg A, Hanes A

**CYFLOGAETH:**

**Hydref 2016 – presennol** **Cynorthwy-ydd Cyllid, Cyllid Cymru, Bangor**

- Delio'n uniongyrchol ag ymholiadau cwsmeriaid ar y ffôn, rhoi cyngor ar nwyddau, trefnu cyfarfodydd ag ymgynghorwyr ariannol a chofnodi data
- Datblygu gwybodaeth o reoliadau'r FSA, cyfrinachedd, meddalwedd rheoli perthynas â chwsmeriaid a sgiliau gwasanaeth i gwsmeriaid.

**Haf 2016** **Lleoliad Cyllidol, Cyllid Cymru, Bangor (**GO Wales)

- Rheoli'n llwyddiannus sefydlu system newydd ar gyfer rheoli perthynas â chwsmeriaid a symud gwybodaeth am gwsmeriaid o'r hen gronfa ddata i'r un newydd
- Hyfforddi staff i ddefnyddio'r system newydd ac ysgrifennu llawlyfr ar gyfer y system
- Datblygu sgiliau rheoli project, cyfathrebu, cyflwyno a hyfforddi
- Wedi cael cynnig swydd barhaol ar ôl gorffen y project

**Tymor yr hydref 2014** **Hyfforddai, Banc Barclays, Caerdydd** (Profiad Gwaith)

- Cael sylfaen gadarn mewn bancio a chyllid corfforaethol
- Datblygu sgiliau dadansoddi a datrys problemau drwy ddadansoddi ac adrodd ar ddata cwsmeriaid a darparu atebion i broblemau clientiaid

- Cefais fy nghanmol yn fawr gan oruchwyliwr fy lleoliad am fy mrwdfrydedd a'm blaengaredd yn ystod fy lleoliad

**SGILIAU:**

| | |
|---|---|
| TG a chyfrifiadureg: | Microsoft Office – Word, Excel, Access<br>Pecyn cyfrifo Peachtree<br>Pecyn gwe Dreamweaver |
| Ieithoedd: | Cymraeg - iaith gyntaf<br>Saesneg - rhugl<br>Almaeneg - sylfaenol |
| Sgiliau eraill: | Trwydded yrru lawn a glân |

**DIDDORDEBAU A LLWYDDIANNAU:**

**Undeb y Myfyrwyr:** Trysorydd

- Trin cyllideb o £10,000
- Trefnu nawdd gan gwmnïau lleol
- Cyfrannu at gynnydd o 15% mewn aelodaeth

**Chwaraeon:** Capten tîm pêl rwyd y Brifysgol
Deifiwr PADI cymwys

**Cerddoriaeth:** Gitarydd bâs i'r "Wiwerod Gwallgo"
Piano gradd 5

**Canolwyr**

Dr Don Smith
Cyllid Cymru
Parc Menai
Bangor LL57 5KJ
E-bost: dsmith@fd.co.uk

Mrs G Williams
Darlithydd Astudiaethau Busnes (Tiwtor)
Prifysgol Bangor
Gwynedd, LL57 2DG
E-bost: gillwilliams@bangor.ac.uk

14 Rhodfa Dewi
Bangor
Gwynedd
LL57 4PJ

1Hydref 2017

Mr Iwan Jones
Cyfarwyddwr Hyfforddi
Bwydydd Kraft Cyf
Heol y Gadeirlan
Cheltenham
GL50 3AE

Annwyl Mr Jones

Ysgrifennaf i wneud cais am le ar eich Cynllun Hyfforddi i Raddedigion (Cyllid). Rwyf wedi siarad â graddedigion sydd wedi ymuno â'r cynllun hwn o Brifysgol Bangor, ac maent yn ystyried mai hwn yw'r gorau ym Mhrydain, a byddwn yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at lwyddiant parhaus Bwydydd Kraft.

Fel y gwelwch o'm CV amgaeedig, mae'r modiwlau a astudiais ym Mhrifysgol Bangor yn cyfateb i'm diddordebau o ran gyrfa a hefyd i'ch anghenion chi. Drwy gydol fy nghyfnod fel myfyriwr rwyf wedi ceisio cael cymaint o brofiad gwaith â phosibl a hynny mewn lleoliadau a oedd nid yn unig yn rhoi cyfle i mi ddatblygu fy ngwybodaeth am gyllid, ond hefyd o weithio mewn tîm a chyda'r cyhoedd yn gyffredinol.

Yr oedd fy mhroject terfynol, a noddwyd gan 'Mrs Beeton Foods USA', yn canolbwyntio ar 'Ragfynegi a dadansoddi ariannol marchnata nwyddau *American Bakery* yng Nghymru', a chefais radd 2:1 amdano. Roedd y project hwn yn cynnwys gwneud cyflwyniadau i gynrychiolwyr cwmnïau ar y posibilrwydd o gynhyrchu a marchnata eu cynnyrch yng Ngogledd Cymru, ac roedd yn cynnwys fy ymchwil i gostio a chanlyniadau elw. Gweithiais mewn ffordd flaengar iawn a llwyddais i gysylltu rhwng y cwmni a siopwyr a gwestywyr lleol trwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Hwn oedd fy nghyfnod mwyaf pleserus a llwyddiannus yn y brifysgol.

Rwy'n gobeithio yr ystyriwch fy nghais: Rwyf wedi amgáu fy CV fel y gofynnwyd. Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir

Amy Roberts

Amg: CV